

Cyngor ar drefnu eich gwaith



Mae trefnu'n sgil anodd ei feistrolï. Mae'n gofyn am ddiwydrwydd, ymroddiad a dyfalbarhad.

Mae llawer ohonom yn gwybod bod yn rhaid i ni drefnu'n gwaith yn well. O bryd i'w gilydd, rydym yn penderfynu gwneud rhywbeth yn ei gylch ac i ffwrdd â ni ar unwaith i lawr i'r siop deunyddiau ysgrifennu i brynu popeth. Yna rydym yn mynd adref ac yn treulio ychydig o oriau yn sortio pob dim. Fel rheol mae hyn yn golygu rhannu popeth yn bentyrrau gwahanol. Yna, ymhen hir a hwyr, pan fyddwn ni wedi diflasu'n llwyr, rydym yn gadael y cwbl heb edrych yn ôl.

Nid cael trefn yw hyn. Gwasttraffu amser yn hytrach. Mae llawer o bobl hefyd yn credu **mai bod yn drefnus yw bod yn daclus.** Nid yw hyn yn wir. Yn amlach na

pheidio bydd pobl yn taflu pethau i gypyrddau i wneud i'r lle edrych yn daclus. Mae eich desg yn edrych yn hyfryd ac yn glir, a gallwch weld y llawr! Ond allwch chi ddod o hyd i unrhyw beth?

Ystyr bod yn drefnus yw darparu amser a gofod digonol ar gyfer pethau. Mae'r hen ddywediad hwn yn crynhoi ystyr bod yn drefnus:

"Lle i bopeth a phopeth yn ei le"

Yn yr adrannau canlynol, ceir **awgrymiadau a chynghorion fydd yn eich helpu i gael trefn ar bethau**. Mae yna rai pethau na fyddant yn gweithio i bawb, ond mae unrhyw gyngor neu strategaethau sy'n ymwneud â threfnu'n dibynnu ar un peth: penderfynu gwneud a dal at y penderfyniad hwnnw!

